(O Dudalen 18)

Yno hefyd, yn ôl pob sôn, y dysgodd Jenkin Howell, Penderyn, ei grefft cyn sefydlu ei wasg ei hun yn 18 Heol Caerdydd.

*  *  *  *

FEL Y crybwyllais dechreuwyd argraffu yn y wasg hon gan Jones ac Evans yn Ionawr 1872. Ychydig ynghynt 'roedd John Jones a Humphrey Evans (1841–1921), a rhoi eu henwau llawn iddynt, yn gweithio yn Swyddfa Argraffu Dolgellau — ond, gan nad oedd cylchgrawn *Y Cronicl* yn cael llawn chwarae teg yno penderfynodd y ddau anturio i agor swyddfa yn 'Stiniog — os cawsent fynd â chylchgrawn J.R. yno gyda hwy.

Cydsyniwyd ar hynny, a symudodd y ddau i ardal Four Crosses, Blaenau Ffestiniog ac agor 'Swyddfa'r Cronicl', fel yr adnabyddid hi wedyn.

Gan nad wyf wedi taro ar gyfeiriad llawn Swyddfa'r Cronicl yn unman eto, nid wyf yn hollol sicr ymhle 'roedd hi. Ond, rwyf yn bur sicr y bu'r ddau argraffwr yn brysur iawn yno yn ystod eu blwyddyn gyntaf. Ar wahân i argraffu'r *Cronicl*, neu i roi ei deitl llawn iddo — *Cronicl y Cymdeithasau Crefyddol*, a ddeuai allan yn fisol, cyhoeddwyd y canlynol yno yn 1872 yn ogystal: *Pregethau J.R.*, Rhan I, Cyf. II, Pris 1/–; *Yr Ysgrifbin a'r dadleuon*, Pris 2/–; *Detholion o Weithiau Boreuaf S.R.*; *Y Llyfr Cyntaf*, Pris 1c.; *Y Coel*, Pris 3c.; *Pregeth ar Oedfa'r Bore*, gan y Parch. W. Roberts, Ffestiniog, Pris 3c.; *Baner y Band of Hope, — sef Dadleuon, Ymddyddanion, Areithiau a Barddoniaeth at wasanaeth y Band of Hope*, gan y Parch. Z. Mather, Ffestiniog.

Am ryw reswm neu'i gilydd, dim ond am dair blynedd yn unig y parhaodd y bartneriaeth rhwng Jones ac Evans. Daeth i ben yn niwedd y flwyddyn 1875. er mor fyrhoedlog y bu'r wasg, gwnaeth dro da â'r *Cronicl* pan oedd angen hynny ar y cylchgrawn, a rhoi noddfa dros dro iddo.

Dywedir bod oddeutu 200 o'r ddau *Cronicl* (byddai un canol y mis yn ymddangos o bryd i'w gilydd) yn cael eu gwerthu yn fisol yn y Blaenau ei hun yn 1874, ac yn ddiamau, 'roedd llawer mwy o'r trigolion yn ei ddarllen.

*  *  *  *

MAE'N AMLWG hefyd y bu'r wasg hon yn fodd i amryw o awduron lleol gael gweld eu gwaith mewn print. Heblaw am y llyfrau a nodwyd eisoes cyhoeddwyd hefyd y rhai canlynol gan y wasg yn ystod y cyfnod 1872–75: *Athroniaeth Naturiol yn dangos y bod o Dduw*, (1872), Meurig Elen; *Traethawd ar lafur, gorphwysdra ac adloniant y gweithiwr*, (1873), John Hughes, Tanygrisiau; *Cell Prysor*, (1873), Ioan Glan Prysor; *Myfyrdodau Amrywiol o waith Evan Roberts (Ieuan Twrog), Tanygrisiau*, Llyfr I (d.d.); *Rhydd-efelychiad o Ganeuon Sankey gan y Tri Brawd*, (1875), Moelwynfab, Mr B. Evans, Miss M. Jones, ac eraill.

Yn rhyfedd iawn, argraffwyd ambell beth y disgwyliech ei gael yn Gymraeg yn uniaith Saesneg ganddynt, e.e. *Programme — Festiniog Eisteddfod to be held at the Assembly Room, Blaenau on Whit Monday, 1874*.

Pan ddaeth y bartneriaeth rhwng J. Jones a H. Evans i ben symudodd Humphrey Evans i'r Bala, ac agor gwasg yno yn Ionawr 1876. Cafodd fynd a'r *Cronicl* yno gydag ef, ac oddi yno y deuai'r cylchgrawn allan wedyn hyd nes y trosglwyddwyd ef i wasg ym Mangor yn 1890. Gyda llaw, taid i'r brodyr Evans, Gwasg y Sir, sydd yn Y Bala heddiw, oedd Humphrey Evans.

*  *  *  *

WEDI YMADAWIAD Humphrey Evans i'r Bala ymdrechodd John Jones i redeg yr argraffty ar ei ben ei hun. Fe wnaeth hyn am ryw ddwy flynedd a chyn mynd i bartneriaeth arall. Hyd yn hyn, dim on un llyfr rwyf wedi taro arno gydag enw'r argraffwr 'John Jones, Four Crosses, Blaenau Ffestiniog' arno. Teitl y llyfr hwn yw, *Cofiant yn nghyda Phigion o Bregethau y diweddar Barch. R. Ellis, Brithdir, gan Thomas J. Ellis, Fourcrosses, Ffesiniog (sic)*, ac 'Agraffwyd gan J. Jones, Fourcrosses, 1876'.

Rywdro yn ystod hanner cyntaf 1878 ymunodd William Lloyd Roberts mewn partneriaeth â John Jones. Yn sgîl hyn, yn ôl pob golwg, bu cryn lewyrch ar gynnyrch yr argraffty am sawl blwyddyn wedyn. I ddechrau, daethpwyd â'r *Rhedegydd* allan ganddynt ym mis Mai y flwyddyn honno — y newyddiadur cyntaf i gael ei argraffu yn y Blaenau. (Gweler Rhifyn 31 o'r *Casglwr* os am fwy o'i hanes.)

'Rwyf o'r farn bellach, er nad wyf yn hollol bendant, mai'r adeg yma hefyd y dechreuwyd galw'r wasg wrth yr enw 'Caxton Works', Fourcrosses.

Parhaodd y bartneriaeth rhwng Jones a Roberts am oddeutu deng mlynedd. Roedd y cyfnod yma yn yn un llewyrchus iawn, oherwydd roedd y chwareli llechi yn eu hanterth a thref y Blaenau yn llawn bwrlwm a phrysurdeb.

Yn ystod y ddegawd yma pan oedd eisteddfodau lleol yn dod i'w bri a nifer mawr o bobl yn mynychu'r cyfarfodydd llenyddol, ymddangosodd nifer o draethodau ar hanes lleol, storîau gan awduron lleol, cynnyrch amryw o feirdd yr ardal, a.y.b., o'r gweisg lleol — ac o weisg eraill o ran hynny. Dyma rai a ddaeth o wasg Jones a Roberts: *Hanes Annibyniaeth ym Mhlwyf Ffestiniog*, (1879), H. O. Roberts; *Hanes Plwyf Ffestiniog*, (1879), W. Jones (Ffestinfab); *Traethawd ar ddylanwad yr oes bresenol ar yr oes ddyfodol*, (1879), John Morris (Brodor o Rhiwbryfdir); *Yr Eneth Amddifad*, (1880), John Jones, Tabernacl; *Bwthyn fy Nhaid Olifer*, (1880), Parch. G. Williams; *Marwnad Samuel Jones*, (1881), Graianfryn; *Pengryniaid Eifionydd*, (1883), Robert Roberts (Bardd Treflys), gyda nodiadau gan R. Rowland, Blaenau Ffestiniog; *Yr Ymfudwr Cymreig*, (1883), Ellis o'r Nant; *A guide to Nant Conwy*, (1884), Ellis o'r Nant; *Cofiant y Parch. Henry Morgan, Dolgellau*, (1885), Parch. E. Parry, Ffestiniog; *Eglwys Crist*, (1887), Parch. Edward Parry, Ffestiniog.

*  *  *  *

MAE RHAI haneswyr wedi dal fod gan Jones a Roberts wasg yma mor gynnar a 1856, am fod y dyddiad hwn ar y gyfrol *Portmadoc and its Resources*, gan owen Morris (Madoc ap Owain Gwynedd). Gallaf eich sicrhau nad yw hyn yn gywir. Er ei bod hi'n wir dweud i'r traethawd hanes gael ei ysgrifennu yn 1856, ni chyhoeddwyd mohono gan y wasg tan rywdro ar ôl marwolaeth yr awdur yn 1884.

Crybwyllais o'r blaen yn yr erthygl ar hanes *Y Rhedegydd* (Rhifyn 31 o'r *Casglwr*) mai gerllaw'r fan lle safai Capel Ebeneser (W) yn Heol Niwbwrch (Stryd Wesla) roedd Caxton Works Jones a Roberts.

Bûm yn meddwl droeon wrth fynd heibio'r lle, tybed ai yma yr agorodd D. J. Thomas ei wasg yn niwedd yr 1860au, neu ai Jones a'i bartner cyntaf a agorodd y lle hwn o'r newydd? Beth bynnag yw'r ateb, rhoddodd John Jones y gorau i'r busnes o argraffu yn y Blaenau yn 1887–88.

Y rheswm am ddweud 'yn y Blaenau' yw, oherwydd fy ansicrwydd ynglŷn â hanes y gŵr hwn ar ôl ei ymadawiad o'r busnes. Mae'n eithaf posibl, fodd bynnag, mai ef oedd y John Jones a fu'n cadw un o'r tafarnau lleol tan ei farwolaeth yn 1900.

*  *  *  *

ERBYN 1889 'roedd W. Lloyd Roberts yn argraffu ei bapur yn rhif 34 Stryd Fawr, Blaenau Ffestiniog. (Cofier mae'n bosibl ei fod ef a J. Jones wedi symud yno oddeutu 1887–88, ychydig cyn i jones orffen yn y busnes.) Sut bynnag, yng nghyfnod Roberts y dechreuwyd galw'r argraffty yn 'Swyddfa'r Rhedegydd'. O bewth wyf wedi ei weld o'i waith, deuai ei gyhoeddiadau allan gyda'r geiriad hyn arnynt: 'Argrafwyd gan W. Lloyd Roberts, Swyddfa'r "Rhedegydd" '; neu, 'Argraffwyd gan W. Lloyd Roberts, Blaenau Ffestiniog'; neu, 'Argraffwyd yn Swyddfa'r "Rhedegydd", High Street, Blaenau Ffestiniog'.

Roedd W. Lloyd Roberts, neu 'Roberts Bach', fel y'i geliwid gan lawer, yn ŵr diwyd dros ben. Yn ogystal â phrintio'r *Rhedegydd* (a'i olygu ar un cyfnod) yn wythnosol, cyhoeddid amryw o lyfrau a phamffledi, rhaglenni eisteddfodau a chyngherddau, awdlau a phryddestau, adroddiadau o bob math, caneuon a baledi, a.y.b., gan ei swyddfa hefyd.

Cyhoeddwyd cylchgronau yno hefyd. Ym mis Ionawr 1890 daethpwyd â chylchgrawn o'r enw *Cyfaill y Plant* o'r wasg o dan olygyddiaeth Elfyn. Bwriedid iddo ddod allan yn fisol, ar gyfer plant Cymru, ond ni bu'n llwyddiant, a rhoddwyd y gorau i'w argraffu ar ôl ychydig rifynnau. Pris y cylchgrawn oedd ceiniog.

Blwyddyn yn ddiweddarach, dechreuwyd argraffu *Yr Athronydd Cymreig* gan Swyddfa'r Rhedegydd. Daethpwyd â'r cyhoeddiad hwn allan i ddechrau ym mis Mawrth 1890 gan y Parch. W. Evans (Monwyson), Yr Wyddgrug. Golygid y cylchgrawn gan Monwyson ac argreffid ef yn ei ddyddiau cynnar gan Samuel Hughes, 3 York Place, Bangor. Credaf mai am ryw bum mlynedd y bu gwas Y Rhedegydd yn ei argraffu. Beth bynnag, roedd ei bris yn Rhagfyr 1894 yn ddwy geiniog.

Tra bu W. Lloyd Roberts yn berchennog Swyddfa'r Rhedegydd rhoddwyd cyfle i lawer o hogiau 'Stiniog a'r cylch gael eu prentisio fel argraffwyr — un neu ddau o'r llanciau'n gloff — megis Evan Pugh a fu'n goruchwylio'r swyddfa yn Heol Dinbych, Llanrwst iddo wedyn, a Ioan Leiaf a ymfudodd i'r Unol Daleithiau yn ddiweddarach yn ei oes.

O sôn am Ioan Leiaf, cyhoeddwyd ei atgofion yn *Y Rhedegydd* yn 1940, ac ymhlith rhai o'r pethau a gofiai am ei gyngyflogwr a'r *Rhedegydd* oedd yr hanesion canlynol:

> *'Ysgrifennai W. Lloyd Roberts (Roberts Bach) dan yr enw Trilby. Unwaith dywedodd air yn ormod a throdd yr ysgrif yn athrod. Gofynnwyd i Roberts yn y Llys yn Nolgellau faint ydoedd cylchrediad* Y Rhedegydd, *dywedodd yntau mil. Yr oeddwn innau i ddweud yr un peth. Lleihawyd y cyfrifoldeb drwy hyn. Dedfrydwyd Roberts i ddimai a'r costau.'*

Gellid llenwi sawl tudalen gyda hanesion o'r fath am 'Roberts Bach', ei staff, a'r *Rhedegydd*, ond mae gennyf ofn y bydd yn rhaid eu gadael am y tro. Hoffwn yn hytrach droi'n sydyn iawn at enghreifftiau eraill o gynnyrch ei wasg. Dyma ychydig ohonynt: *Cyfalaf a Llafur*, (1890), C. Edward Roberts; *Gemau Gwalia*, (1891), Parch. W. Pari Huws, B.D.; *Caniadau Elfyn*, (d.d.), R. O. Hughes (Elfyn); *Pedwerydd-ar-ddeg-ar-hugain Adroddiad Beibl Gymdeithas Blaenau Ffestiniog yn terfynu Gorffennaf 1, 1892*; *Hufen y Gamallt*, (1895), Treforfab (Archdderwydd y Gymdeithas Enweiriawl); *Briallu'r Glyn*, (1896), Glyn Myfyr; *Meillion y Glyn*, (1897), Glyn Myfyr.

*  *  *  *

HEB FYND i fanylion, mynd i ddŵr poet gyda rhyw ysgrif 'athrodus' yn *Y Rhedegydd* a wnaeth i W. Lloyd Roberts roi'r gorau i'w fusnes argraffu yn 1906. Gwerthwyd y swyddfa, a'r cyfan oll ganddo, i Lewis Davies (Y Gloch) a John Daniel Davies, y naill o 'Stiniog a'r llall o Rosllannerchrugog yn wreiddiol.

(I'w barhau)